galericaernarfon.com



galeri
galeri
galeri
galeri

Ionawr
January

Gwelais gynhyrchiad cwmni Hijinx Meet Fred fel rhan o Ŵyl Unity yng Nghaerdydd a gwyddwn y byddai'r gwaith yn cyfoethogi rhaglen theatrig Galeri. Ceir yma gyfuniad o actio a gwaith pypedau gwych. Mae'r pyped yn wynebu rhagfarnau bob dydd ac mae'r stori'n ddoniol ac ingol yr un pryd gan ddatgelu'r sefyllfaoedd hurt hynny y bydd y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn eu hwynebu pan dynnir y gefnogaeth oddi arnynt gan chwalu'r myth "We are all in this together". Mae cyfle unigryw hefyd i chi fod yn rhan o weithdy Meet Fred ar y prynhawn Sadwrn. Byddwch yn dysgu am bypedwaith elfennol Bunraku, arddull tri pherson o bypedwaith fel ag y gwelir yn y sioe.Dewch i gyfarfod Fred nos Sadwrn yr 28ain o Ionawr! Chewch chi mo'ch siomi!

---

I saw Hijinx production of Meet Fred as part of Unity festival in Cardiff and was convinced that the work would enrich Galeri's theatre programme. It combines excellent acting and puppetry. The puppet faces prejudices daily. With wit and dark humour Hijinx exposes the ridiculous situations some of the most vulnerable in our society encounter when their support is taken from them, exploding the myth that "we are all in this together." There is also an unique opportunity to participate in the Meet Fred workshop on the Saturday afternoon, 28th of January.

---

**Mari Emlyn**
Cyfarwyddwr Artistig Galeri Artistic Director

Metroplitan Opera Live:

# Nabucco (Verdi)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
07.01.17


**Amser/Time**
17:55

Mae Cyfarwyddwr Cerddoriaeth y Met James Levine yn arwain drama gynnar Verdi am Babylon Hynafol, Nabucco, ac mae Plácido Domingo yn ychwanegu rhan newydd at ei stoc fel y cymeriad teitl. Liudmyla Monastyrska sy'n canu rhan bwerus Abigaille, merch bengaled Nabucco, a Jamie Barton yw Fenena, Russell Thomas yw Ismaele, a Dmitri Belosselskiy yw'r proffwyd Zaccaria, y rhan a chwaraeodd yn ei berfformiad cyntaf yn y Met yn 2011.

Met Music Director James Levine conducts Verdi's early drama of Ancient Babylon, Nabucco, with Plácido Domingo adding a new role to his repertory as the title character. Liudmyla Monastyrska sings the tour-de-force role of Abigaille, Nabucco's willful daughter, with Jamie Barton as Fenena, Russell Thomas as Ismaele, and Dmitri Belosselskiy as the prophet Zaccaria, the role of his 2011 Met debut.

**Gweddill darllediadau byw y tymor o Efrog Newydd:**
**Other live broadcasts for the season:**
Roméo et Juliette (21.01.17)
Rusalka (25.02.17)
La Traviata (11.03.17)
Idomeneo (25.03.17)
Eugene Onegin (22.04.17)
Der Rosenkavalier (13.05.17)

Amcan hyd: 3" 04
Estimated duration: 3" 04



**Darllediad Opera Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £13
Gostyngiadau/Concessions: £10
Prima: £11



**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £5
Gostyngiadau/Concessions: £4

## Tonic: Elin Fflur

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
12.01.17

**Amser/Time**
14:30

Yr hen a'r newydd, dyna fydd thema sesiwn Tonic Elin Fflur. Ers 2002 mae wedi cynhyrchu saith albwm, trwy gyfansoddi gyda nifer o gerddorion amryddawn fel Caryl Parry Jones, Sion Llwyd, Rob Reed, Owen Powell a Mei Gwynedd. Cawn flas o'r gwahanol gyfnodau yma, ac ambell stori ddifyr tu ôl i rai o'r caneuon. Sion Llwyd fydd yn cyfeilio ar y piano, ac mae o wedi hen arfer gan ei fod yn cydweithio gydag Elin ers bron i bymtheg mlynedd.

The old and the new, that will be the theme for Elin Fflur's Tonic. Since 2002 she has produced seven albums, composing with various talented artists such as Caryl Parry Jones, Sion Llwyd, Rob Reed, Owen Powell and Mei Gwynedd. Sion Llwyd will be accompanying Elin on the piano.

Bydd paned i ddilyn
A cup of tea to follow



**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £5 am riant a plentyn/per child & parent (+ £3 fesul plentyn ychwanegol/for any additional children)

Dawns i Bawb mewn partneriaeth â/in partnership with Galeri:

## Migl di Magl di

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
19.01.17 – 06.04.17

**Amser/Time**
10:30 – 11:30

Stori, dawnsio a chanu yn Gymraeg i blant bach 0 - 3 oed a'u rhieni/gwarchodwyr. Cyfle i gyflwyno'r Gymraeg i'ch plentyn mewn sesiynau hwyliog a chreadigol. Croeso cynnes i bawb!

Story, singing and dancing in the Welsh language for children 0-3 years and their parents/guardians. A fun and creative opportunity to introduce Welsh to your child. A welcome to all including learners and non-Welsh speakers.

**Cynhelir y sesiynau ar y dyddiadau isod:**
**Sessions will be held on the following dates:**
19.01.17 / 16.02.17 / 16.03.17 / 06.04.17

Capasiti cyfyngedig - archebwch eich lle yn gynnar.
Limited capacity - early booking recommended

Flying Bridge Theatre:

# A Regular Little Houdini

Awdur & perfformwr/Written & performed by Daniel Llewelyn-Williams
Cyfarwyddwr/Director: Joshua Richards

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
20.01.17

**Amser/Time**
19:30

Casnewydd, De Cymru, yn y cyfnod Edwardaidd: Mab i weithiwr dociau wedi ffoli ar Harry Houdini ac yn breuddwydio am fywyd o gonsurio a "dianc". Ond sut mae gwneud hynny gyda thlodi'n caethiwo fel mwd? Portread rhyfeddol o obaith, penderfyniad a hudoliaeth! Enillydd llu o wobrau rhyngwladol. Sioe a werthodd bob tocyn yng Nghaeredin 2016.

Newport, Edwardian South Wales: A dockworker's son, idolises Harry Houdini and dreams of a life of magic, of "escaping", but how, when poverty constricts you like mud? An extraordinary tale of hope, determination and enchantment!
An international multi-award winner. An Edinburgh 2016 sell out show.

**"A cracker!"**
– San Diego Tribune.



**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12.50
Gostyngiadau/Concessions:
£11.50, PRIMA: £11.50

Metroplitan Opera Live:

# Roméo et Juliette (Gounod)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
21.01.17

**Amser/Time**
17:55

Mae tîm gwefreiddiol Vittorio Grigolo a Diana Damrau yn aduno ar gyfer cynhyrchiad newydd o opera Gounod sy'n seiliedig ar ddrama Shakespeare. Mae Damrau yn chwarae ei rhan gyntaf fel Juliette yng nghynhyrchiad newydd Bartlett Sher, a'r arweinydd yw Gianandrea Noseda. Mae Elliot Madore yn canu Mercutio ac mae Mikhail Petrenko yn canu Frère Laurent. Mae llwyfaniad Sher yn gynhyrchiad La Scala, a gyflwynwyd gyntaf gan Ŵyl Salzburg, lle cafodd ei berfformio gyntaf yn 2008.

The electrifying team of Vittorio Grigolo and Diana Damrau reunites for a new production of Gounod's opera based on the Shakespeare play. Damrau makes her role debut as Juliette in Bartlett Sher's new production, conducted by Gianandrea Noseda. Elliot Madore sings Mercutio and Mikhail Petrenko sings Frère Laurent. Sher's staging is a La Scala production, initially presented by the Salzburg Festival, where it premiered in 2008.

Amcan hyd: 3" 30
Estimated duration: 3" 30



**Darllediad Byw/Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £13
Gostyngiadau/Concessions: £10
Prima: £11



**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £60 am y tymor/for the term *
*sesiynau ychwanegol/additional sessions : £10 yr un/each

## Cain

**Dyddiad/Date**
Ionawr/January – Ebrill/April

**Amser/Time**
10:00 – 12:30/15:00 – 17:00

Criw perfformio dawns Galeri ar gyfer unrhyw berson dros 60 oed yw Cain. Mae'r criw yn cyfarfod yn gyson ar gyfer dyfeisio, datblygu ac ymarfer gwaith newydd dan arweiniad y coreograffydd a'r tiwtor Cai Tomos.

Cain is Galeri's dance performance group which is open to those over the age of 60. The sessions are held by professional dancer/choreographer/tutor - Cai Tomos.

Mae sesiynau wedi cael eu cadarnhau ar y dyddiadau isod:
Confirmed dates for the term:
**22.01.17/19.02.17/26.03.17/23.04.17**
(mae'n bosib bydd sesiynau ychwanegol/extra sessions may be organised)

Croeso cynnes i aelodau newydd!
A warm welcome to new members!

**Gyda diolch i/With thanks to:**
Dawns i Bawb



**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £3 y sesiwn/per session

## Estyneto

**Dyddiad/Date**
Ionawr/January – Ebrill/April

**Amser/Time**
13:30 – 15:00

Ymunwch â'r dawnsiwr, y coreograffydd a'r tiwtor arbennig Cai Tomos mewn sesiynau dawns/symud i gerddoriaeth sydd yn addas i unrhyw berson dros 60 mlwydd oed. Yr oll sydd angen arnoch yw'r awydd i gadw'n iach ac yn heini. Mae'r sesiynau hefyd yn gyfle perffaith i gymdeithasu!

Join the inspirational dancer and choreographer, Cai Tomos as he leads monthly dance/movement sessions for those over the age of 60. You do not need any dancing skills or experience - only the desire to stay fit and healthy.

Dyddiadau'r tymor:
The monthly sessions will take place on the following dates:
**22.01.17/19.02.17/26.03.17/23.04.17**

**Gyda diolch i/With thanks to:**
Dawns i Bawb

Pontio, Invertigo Theatre Company & The Conker Group yn cyflwyno/present:

# My Body Welsh

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
26.01.17

**Amser/Time**
20:00

Un Cymro tal, tenau gyda agenda o bwysigrwydd cenedlaethol: mae gwir i'w ddarganfod tu ôl i bob stori... Mae Jones a Davis yn ffraeo. Mae sgerbwd yn y ffynnon. Mae mwy i Gymreictod nag acen, onid oes? Yng nghwmi artist seinwedd byw yn creu afon o sain o flaen eich llygaid, ymunwch â'r perfformiwr Steffan Donnelly ar anturiaeth delynegol ddyfriog wrth iddo eich tywys drwy Llanfair-pwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch, heibio ffynnon o chwedlau i'w fyd llithrig, brodorol. Drama gyfoes, fywiog, rannol-ddwyieithog, sy'n ymchwilio sut mae creu chwedlau yn chwarae rhan mewn llunio ein hunaniaeth genedlaethol.

A Mythstery of Skeletal Proportions. One tall, skinny Welshman with an agenda of national importance: there's a truth behind every good story. Jones and Davis are fighting. There's a skeleton in the well. There's more to being Welsh than having the accent, isn't there? Accompanied by a live soundscape artist creating a river of sounds in front of you, join performer Steffan Donnelly on a watery lyrical thriller as he guides you through Llanfairpwllgwyngyllgogery-chwyrndrobwllllantysiliogogogoch and into his world of slippery small-town myth-making. A vibrant, part-bilingual piece of contemporary theatre that investigates the role storytelling plays in constructing national identity.

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Cymry Llundain, a Pontio
Supported by Arts Council Wales, London Welsh Centre & Pontio.
Canllaw oed: 14+/Age guide: 14+



**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £10
Gostyngiadau/Concessions: £8
Prima: £8

# Cyngerdd Gala Santes Dwynwen

Llŷr Williams/Rhys Meirion/Shan Cothi

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
27.01.17

**Amser/Time**
19:30

Cyngerdd Gala Santes Dwynwen fawreddog yng nghwmni:
**Llŷr Williams** (Pianydd Preswyl Galeri)
**Rhys Meirion** (Canwr Preswyl Galeri)
a'r gwestai arbennig, y soprano **Shan Cothi**.

Gwledd o gerddoriaeth rhamantus gan brif artistiaid Cymru
i ddathlu diwrnod santes y cariadon.

Gala Concert in the company of:
**Llŷr Williams** (Galeri's pianist-in-residence)
**Rhys Meirion** (Galeri's singer-in-residence)
and special guest - soprano **Shan Cothi**.

A feast of romantic music in the company of three of Wales' most talented musicians as we celebrate Santes Dwynwen - the Welsh patron saint of lovers.




**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £25, Gostyngiadau/Concessions: £22, Prima: £22

Hijinx Theatre

# Bunraku Puppetry Workshop Gweithdy Pypedwaith Bunraku



**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
28.01.17

**Amser/Time**
14:00 – 17:00

Gweithdy arbennig i gyd-fynd gyda perfformiad Meet Fred yn y theatr gan gwmni Hininx. Pwrpas y gweithdy yw i roi cyflwyniad ar dechnegau pypedwaith Bunraku (ffurf tri person o bybedwaith). Mae'r gweithdy yn addas i unrhyw un sydd â diddordeb yn y grefft o reoli pypedau ac fe fydd y sesiwn yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Artistig Hijinx Ben Pettitt-Wade a'r perfformiwr Martin Vick.

To coincide with Meet Fred performance in the theatre - Hijinx will lead a workshop to introduce the basics of Bunraku puppetry (a three person style of puppetry). The workshop is suitable for anyone with an interest in puppetry or performance and will be led by Hijinx Artistic Director Ben Pettitt-Wade and performer Martin Vick.

**Gweithdy/Workshop**


**Lleoliad/Location:** S1

**Tocynnau/Tickets:** £7 (gweithdy yn unig neu/for the workshop only or:) £13*
Gostyngiadau/Concessions: £12*, Prima: £11*
(sydd yn cynnwys tocyn ar gyfer Meet Fred am 19:30/
to include ticket for Meet Fred at 19:30)

Saesneg fydd iaith y gweithdy - sydd yn addas ar gyfer oed 14+
An English language workshop - suitable for ages 14+

Hijinx Theatre mewn cydweithrediad a/in association with Blind Summit

# Meet Fred




**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
28.01.17

**Amser/Time**
19:30

Mae pyped wedi ei wneud o frethyn yn ymladd yn erbyn rhagfarn bob dydd. Y cwbl mae Fred am ei wneud yw bod yn rhan o'r byd go iawn, i gael swydd a chwrdd â merch, ond pan mae ei Lwfans Byw Pypedwaith dan fygythiad, mae Fred yn dechrau colli rheolaeth ar ei fywyd. Cafodd sioe hynod boblogaidd Gŵyl Ymylol Caeredin 2016 ei disgrifio fel 'Sharp, funny and vastly entertaining' (Lyn Gardner, The Guardian).

Starring a potty-mouthed but loveable puppet, Meet Fred takes a timely look at what it is to be disadvantaged in today's society and is performed by actors both with and without disabilities. Punchy, comical and not afraid to say it how it is, the show follows an outsider who is trying to make his mark in a world in which he needs a lot of help. A hugely popular Edinburgh Fringe Festival show in 2016 - 'Sharp, funny and vastly entertaining' (Lyn Gardner, The Guardian).

*****
The Herald | Broadway Baby | Fringe Review | To Do List | The Upcoming

Canllaw oed: 14+ (yn cynnwys iaith gref a noethni pyped)
Age guide 14+ (contains strong language & puppet nudity)

**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £10, Gostyngiadau/Concessions: £9, Prima: £8

# Chwefror February

Mae mis Chwefror yn golygu un peth i Galeri sef PICS! Bydd gweithdai a sgrinio ffilmiau ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod hanner tymor a chyfle i glywed am gynlluniau cyffrous Galeri ar gyfer eich sinema newydd! Dewch i rannu eich syniadau a'ch dyheadau chi ar gyfer ffilm yng Nghaernarfon! Penllanw Gŵyl Ffilm PICS fydd y noson wobrwyo, nos Iau Chwefror 23! Dewch atom i ryfeddu at dalentau gwneuthurwyr ffilm ifanc Cymru ac i droedio'r carped coch!

---

February means one thing for Galeri and that's PICS! Film workshops screening for children and young adults will be programmed throughout February's half term and an opportunity to hear about Galeri's exciting plans for your new cinema! Come and share your thoughts and aspirations for film in Caernarfon! PICS Film Festival culminates in our PICS Award Ceremony, Thursday evening, February 23rd! Come and join us to marvel at the talents of Wales' young filmmakers! Come and walk on the red carpet!

**Mari Emlyn**
Cyfarwyddwr Artistig Galeri Artistic Director

National Theatre Live


# Amadeus (12A)

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
02.02.17

**Amser/Time**
19:00

Lucian Msamati sy'n chwarae Salieri yn nrama eiconig Peter Shaffer, wedi ei darlledu'n fyw o'r National Theatre, gyda chyfeiliant cerddorfa fyw'r Southbank Sinfonia. Mae Wolfgang Amadeus Mozart, dawn rhyfeddol ifanc, yn cyrraedd Fienna, prif ddinas gerddorol y byd – yn benderfynol o wneud argraff. Wedi ei syfrdanu gan athrylith Mozart, mae gan Antonio Salieri'r gallu i hyrwyddo ei dalent, neu chwalu ei enw. Mae ei genfigen yn ei arwain i ryfela gyda Mozart, gyda cherddoriaeth, ac yn y pendraw gyda Duw.

Music. Power. Jealousy. Lucian Msamati plays Salieri in Peter Shaffer's iconic play, broadcast live from the National Theatre, and with live orchestral accompaniment by Southbank Sinfonia. Wolfgang Amadeus Mozart, a rowdy young prodigy, arrives in Vienna, the music capital of the world – and he's determined to make a splash. Awestruck by his genius, court composer Antonio Salieri has the power to promote his talent or destroy his name. Seized by obsessive jealousy he begins a war with Mozart, with music, and ultimately, with God. After winning multiple Olivier and Tony Awards when it had its premiere at the National Theatre in 1979, Amadeus was adapted into an Academy Award-winning film.




**Darllediad Byw/Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12, Gostyngiadau/Concessions: £10 - £7.50
Prima: £7.50



**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £9
Gostyngiadau/Concessions: £3

Cyngerdd Coffi

## Ensemble Cymru

Coffee Concert

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
03.02.17

**Amser/Time**
14:30

Cyngerdd o gerddoriaeth i'r feiolín, clarinet a'r piano. Y feiolinydd Florence Cooke a Richard Ormrod ar y piano sydd yn ymuno â Ensemble Cymru ar gyfer cyflwyno rhaglen gyffrous ac amrywiol sydd yn cynnwys Sonata Mozart i'r Piano a feiolin yn B meddalnod. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys Contrasts gan Béla Bartók a gwaith trawiadol o egnïol Suite for Clarinet, Violin and Piano gan y cyfansoddwr Ffrengig, Darius Milhaud. Bydd Ensemble Cymru hefyd yn Galeri 05.05.17 gyda rhaglen o gerddoriaeth i'r ffliwt, feiolín, soddgrwth a'r delyn.

A concert of music for violin, clarinet and piano. Violinist Florence Cooke and Richard Ormrod on piano join Ensemble Cymru for an exciting and diverse programme including Mozart's Sonata for Piano and Violin in B flat. Also featured is Béla Bartók's Eastern European folk inspired Contrasts and Suite for Clarinet, Violin and Piano by French composer Darius Milhaud. Ensemble Cymru will also perform in Galeri on 05.05.16 with music for flute, violin, viola, cello and harp.

Gweinir te ar y mezzanine o 14:15 (wedi ei gynnwys ym mhris y tocyn)
Tea will be served on the mezzanine from 14:15 (included in ticket price)



**Sgwrs/Talk**
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £5
Prima: £4

## Dylanwadau: Tudur Owen

**Dyddiad/Date**
Mawrth/Tuesday
07.02.17

**Amser/Time**
14:00 – 15:00

Mari Emlyn fydd yn holi'r actor, digrifwr, cyflwynydd teledu a radio ac awdur: Tudur Owen.

Mari Emlyn will chair a discussion with actor, comedian, tv and radio presenter and author Tudur Owen

Cynhelir y sgwrs yn Gymraeg.
This is a Welsh language talk.

Canolfan Gerdd William Mathias:

# Llwyfan Cerdd

**Dyddiad/Date**
Friday/Gwener
10.02.17

**Amser/Time**
18:00

Dewch i glywed rhai o fyfyrwyr Canolfan Gerdd William Mathias yn perfformio rhaglen amrywiol.

Listen to students from Canolfan Gerdd William Mathias Music Centre perform a varied programme.

Canolfan Gerdd William Mathias
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru



**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £4, Gostyngiadau/Concessions: £3

Company of Wolves:

# The End of Things

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
10.02.17

**Amser/Time**
19:30

Cloc yn tician yn ddi-baid. Oedi dros ddigwyddiadau oes Cyfarfodydd. Cariad. Dweud ffarwel. Dyhead yn newid a phlygu, ar draws bydoedd, ar draws oesau Realiti'n troi'n afreswm, yn wallgofrwydd, ac yn ôl unwaith eto. Beth sy'n bodoli yma go iawn? Faint ohonom ni, faint ohonoch chi? Yn llawn llawenydd, poen a harddwch rhyfeddol, dyma daith at galon y broses o ollwng gafael.
Dewch am y pleser pur a geir o anrhefn ac achubiaeth. Dewch i weld beth all fod yn ein disgwyl ar ddiwedd y daith.

The insistent ticking of a clock. The strung-out moments of a lifetime. Meetings. Love. Saying goodbye. Desire shifts and bends, across worlds, across time. Reality morphs into absurdity, into lunacy, and back again. What's real here? How much is us, how much is you? Infused with joy, pain and breathtaking beauty, this is a journey to the heart of letting go. Come for the sheer pleasure of chaos and redemption. Come see what might lie at the end of things.

Canllaw oed/Age guide: 12+



**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £10, Gostyngiadau/Concessions: £9, Prima: £9

# Tic Tacs:
# Aled Siôn Davies

**Dyddiad/Date**
Llun/Monday
13.02.17

**Amser/Time**
19:30

Cyfle'r athletwr Paralympaidd, Aled Siôn Davies yw hi i gael ei holi gan Nic Parry yn Tic Tacs y tymor hwn. Cafodd Aled ei eni gyda Talipese a Hemi-hemilia yn ei goes dde, a dechreuodd ymddiddori mewn athletau Paralympaidd yn 2005. Byth ers hynny, mae Aled wedi bod yn casglu medalau ac yn chwalu sawl record byd drwy daflu pwysau neu'r ddisgen. Mae Aled yn dal dau Record Byd, yn bencampwr dwbwl yng Ngemau Paralympaidd, Pencampwriaethau'r Byd ac Ewrop. Cawn glywed am ei yrfa a'i obeithion ar gyfer 2017 a thu hwnt.

Bridgend born Parlympian athlete Aled Siôn Davies will be questioned by Nic Parry in the latest 'Tic Tacs' evening with series in Galeri. Aled was born with a combined disability of Talipese and Hemi-hemilia in his right leg and was introduced to Paralympic sport in 2005. Ever since, he hasn't looked back and he is now a double World-Record holder, double Paralympic Olympic Champion, double World Champion and double European Champion in the world of shot put and discus. We'll learn more about Aled's life and future aspirations as he sets his sights on 2017 to add some more medals to his impressive set.

Cymraeg fydd iaith y sgwrs/This is a Welsh language talk




**Sgwrs/Talk**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £10, Gostyngiadau/Concessions: £9, Prima: £9

THEATR GEN BYW

# Macbeth (12A)

Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Cadw a gyda chefnogaeth gan Chapter
Theatr Genedlaethol Cymru in partnership with Cadw and with support from Chapter

**"Hyll yw'r teg, a theg yw'r hyll; Hofran yn yr aflan niwl a'r gwyll."**

| Dyddiad/Date | Amser/Time |
|---|---|
| Mawrth/Tuesday, 14.02.17 | 19:30 |
| Mercher/Wednesday, 01.03.17 | 13:00* |

**Darllediad Byw/Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12, Gostyngiadau/Concessions: £10 - £7.50, PRIMA: £7.50

*Ail-ddangosiad (i gynnwys is-deitlau Saesneg)
*A repeat screening (with English subtitles)

Mae Brenin yr Alban wedi gwobrwyo ei filwr mwyaf disglair yn hael am ei wrhydri. Ond mae bodau goruwchnaturiol wedi darogan i Macbeth anrhydedd lawer mwy. Pan fo ei wraig ddidostur yn gwirioni ar addewid o bŵer di-ben-draw, gan annog uchelgais cythreulig ei gŵr, mae ar ben arno, ac mae cynllun dieflig y ddau yn troi'n gyflafan waedlyd. Cynhyrchiad safle benodol Theatr Genedlaethol Cymru – yn fyw o Gastell Caerffili – o glasur Shakespeare wedi ei gyfieithu o'r newydd i'r Gymraeg gan y diweddar Gwyn Thomas.

The King of Scotland has generously rewarded his brightest warrior. But supernatural beings have predicted for Macbeth a far greater honour. When his merciless wife is captivated by the promise of infinite power, fuelling her husband's fiendish ambition, he is doomed, and their devilish plans turn to bloody massacre. Theatr Genedlaethol Cymru's site specific production – live from Caerphilly Castle – of Shakespeare's brutal tragedy in a new Welsh translation by the late Gwyn Thomas.

**Cast yn cynnwys/Cast includes:**
Richard Lynch (Pobol y Cwm) Macbeth
Ffion Dafis (Byw Celwydd) fel ei wraig ddi-drugaredd/Lady Macbeth

**Cyfarwyddwr/Director:**
Arwel Gruffydd





**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets: £5**
Gostyngiadau/Concessions: £4

## Tonic: Tecwyn Ifan

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
16.02.17

**Amser/Time**
14:30 – 15:30

Cyfle i fwynhau rhai o glasuron cerddorol yng nghwmni'r canwr a'r cyfansoddwr caneuon - Tecwyn Ifan.

Iconic Welsh singer Tecwyn Ifan returns to the Tonic stage to perform a selection of his best known songs revealing his devotion to Wales, its language and heritage.

Bydd paned i ddilyn
A cup of tea to follow

# Kendal Mountain Festival (12A)

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
17.02.17

**Amser/Time**
19:30

Mae Gŵyl Mynydd Kendal yn teithio Prydain gan gynnig noson o fyd yr antur yn rhyngwladol i Galeri am y tro cyntaf. Noson o ddangosiadau ffilm, siaradwyr gwadd ac athletwyr amrywiol. Bydd cyfle hefyd i weld yr offer a'r dillad diweddaraf, gyda gwobrau arbennig hefyd ar gael ar y noson! Dewch i gael eich ysbrydoli, i fwynhau'r mynyddoedd, y gwyllt a diwylliant yr awyr agored.

Kendal's award-winning Mountain Festival is on tour around the UK, bringing the latest from the world of adventure to Galeri for the very first time. An evening packed full of inspirational and adrenaline-packed films, guest speakers and athletes. Check out the latest outdoor gear, and take some home with you if you're lucky enough to win a prize on the night! Get inspired to explore and enjoy the mountains, wilderness and their cultures.

kendalmountaintour.com



**Ffilm/Film**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £15




**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £7

# Sgriblo

**Dyddiad/Date**
Dyddiau Sadwrn/Saturdays
18.02.17 / 25.03.17 / 29.04.17

**Amser/Time**
11:00 – 12:00

Sesiynau ysgrifennu misol ar gyfer plant 7 - 11 oed dan ofal Sian Northey. Nod y sesiynau yw annog plant i fwynhau ysgrifennu creadigol heb bwysau cwricwlwm nag athro!

A Welsh language writing workshop for ages 7-11 led by Sian Northey.

Cynhelir sesiynau'r tymor/Sessions will be held on the following dates:
**18.02.17 / 25.03.17 / 29.04.17**

GŴYL FFILM I BLANT A PHOBL IFANC

# 2017 PICS

FILM FESTIVAL FOR CHILDREN & YOUNG PEOPLE

RONDO

## Dyddiad/Date
17.02.17 – 26.02.17

**9 diwrnod/9 days**
**30+ digwyddiad/30+ events**

Facebook: gwylPICS
Twitter: Gwyl_PICS

gwylffilmpics.com
#GwylffilmPICS

Prif Noddwyr PICS 2017 Main Sponsors

Llysgennad yr ŵyl/Festival Patron: Matthew Rhys

Gyda diolch i/With thanks to Gwyn & Mary Owen



## Moana

UDA/USA, 2016, Ron Clements, John Musker, Don Hall, Chris Williams

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday, 18.02.17 10:00/14:00/18:00
Sul/Sunday, 19.02.17, 10:30/14:00
Mawrth/Tuesday, 21.02.17, 14:00

Mae merch ifanc yn defnyddio ei sgiliau mordwyo i hwylio am ynys chwedlonol. Yn ymuno â hi yn ei hantur y mae ei harwr, yr hanner-duw rhyfeddol Maui.

A young woman uses her navigational talents to set sail for a fabled island. Joining her on the adventure is her hero, the legendary demi-god Maui.

**Tocynnau/Tickets: £3.50 - £7**



## Fy Llais 2017

Prosiect Cymunedau'n Gyntaf

**Dyddiad/Date**
Llun/Monday – Iau/Thursday, 20.02.17 – 23.02.17, 09:00 – 16:00

Ydych chi rhwng 16 a 24 mlwydd oed? Byw yn ward Cadnant neu Peblig (Caernarfon), Maesgeirchen (Bangor) neu Dalysarn? Diddordeb mewn creu ffilm a dysgu mwy am y grefft? Cyfle arbennig i fod yn rhan o gwrs creu ffilm 4 diwrnod yn Galeri, Caernarfon a hynny'n rhad ac am ddim dan arweiniad Eilir Pierce. Mae angen cofrestru erbyn: 17:00, dydd Llun, 11.01.17* *Mae'r prosiect yn ddibynol ar isafswm o fynychwyr.

Are you between 16 and 24 years of age? Do you live in Cadnant or Peblig wards (Caernarfon), Maesgeirchen (Bangor) or Talysarn? Interest in filmmaking and learning more about the process?Here's a special opportunity to be part of this free 4 day filmmaking course in Galeri, Caernarfon led by Eilir Pierce. Registration is required by: 17:00, Monday, 11.01.17* *minimum numbers required to proceed with this project.

**Am fwy o fanylion/For further information:**
01286 685 213/pics@galericaernarfon.com




## Gweithdy Animeiddio

Ar gyfer plant oed 7 – 12/for children ages 7 - 12

**Dyddiad/Date**

Llun/Monday, 20.02.17, 09:30 – 12:30

Cyflwyniad i dechnegau animeiddio gan Gwenllian Evans sy'n raddedig BA Hons Animeiddio o Brifysgol Edge Hill yn Lerpwl. Diben y gweithdy fydd cyflwyno plant i dechnegau animeiddio wrth gynhyrchu ffilm fer.

Interested in animation? Join an introductory workshop that aims to present basic animation techniques to children.

**Lleoliad/Location: S2**

**Tocynnau/Tickets: £10**
**Cymraeg fydd Iaith y gweithdy/Welsh language workshop**



## Sing

Siapan/Japan, UDA/USA, 2016, Garth Jennings

**Dyddiad/Date**

Llun/Monday 20.02.17, 10:30, 14:00, 18:30
Mawrth/Tuesday 21.02.17, 18:30
Mercher/Wednesday 22.02.17, 10:30
Gwener/Friday, 24.02.17, 14:00

Mae coala o'r enw Buster Moon yn cael un cyfle olaf i adfer ei theatr i'w hen ogoniant drwy gyflwyno'r gystadleuaeth ganu orau yn y byd.

A koala named Buster Moon has one final chance to restore his theater to its former glory by producing the world's greatest singing competition.

**Tocynnau/Tickets: £3.50 - £7**



## Shorts for Wee Ones (U)

Amrywiol/Various, 2014-2016

**Dyddiad/Date**

Mawrth/Tuesday, 21.02.17, 10:00 – 10:50

Casgliad o ffilmiau byr ar gyfer cynulleidfaoedd iau wedi eu casglu ynghyd gan ein ffrindiau yng Ngŵyl Ffilmiau Discovery, Dundee. 45 munud o berlau byr o bob rhan o'r byd, yn cynnwys Yr Almaen, Ffrainc, Y Swisdir, Hwngari a'r UDA. Mae'r ffilmiau oll yn y Saesneg neu heb ddeialog o gwbl, ac eithrio un ffilm fer Ffrangeg, a chânt eu hadrodd mewn ffordd sy'n apelio'n weledol. Bydd y chwedlau hudolus hyn wrth fodd plant oed 3+ ac yn gyflwyniad lliwgar i'r profiad o fynd i'r pictiwrs.

A collection of short films for younger audiences collected by our friends at Discovery Film Festival, Dundee. 45 minutes of little gems from around the world, including Germany, France, Switzerland, Hungary and the USA. All films are in English or dialogue free, except for a French short, but the storytelling is superbly visual. These magical tales will delight children age 3+, a colourful introduction to the cinema experience.

**Tocynnau/Tickets: £2**

## Gweithdy Creu Ffilm – Into Film

Ar gyfer oed/For ages: 5 - 18

**Dyddiad/Date**

Mawrth/Tuesday, 21.02.17, 10:00 – 11:30

Cyfle i ddysgu'r grefft a'r broses o greu ffilm fer o dan ofal elusen addysg ffilm – Into Film Cymru.

An opportunity to learn through 'Into Film' charity about the process of filmmaking.

**Lleoliad/Location: C3**

**Tocynnau/Tickets: £3***
***yn cynnwys tocyn i/including a ticket for Shorts for Middle Ones**

## Into Film Cymru: Pwy ydym ni?

**Dyddiad/Date**
Mawrth/Tuesday, 21.02.17, 11:45 – 12:15

Cyfle i athrawon ac arweinyddion ieuenctid ddod am sgwrs ac i ddysgu mwy am Into Film Cymru a beth y gallwn ei gynnig, rhad ac am ddim i'w hysgolion neu i glybiau ieueunctid.

An informative session presented by Into Film Cymru aimed at instructing teachers, lecturers and leaders of young people groups about the opportunities available through Into Film.

**Tocynnau/Tickets:** am ddim/free



## Shorts for Middle Ones (PG)

Amrywiol/Various, 2014-2016

**Dyddiad/Date**
Mawrth/Tuesday, 21.02.17, 12:00 – 13:00

Amrywiaeth o ffilmiau byr i blant 8 oed neu hŷn, sy'n cyflwyno rhai agweddau gwahanol iawn ar y byd y trigwn ynddo – yn heriol, yn gyfriniol, yn dathlu, yn holi ac yn hwyl. Mae'r rhan fwyaf o'r ffilmiau heb unrhyw ddeialog, gan brofi nad oes angen geiriau bob amser i adrodd straeon gafaelgar. Mewn un ffilm, fodd bynnag, defnyddir is-deitlau rhag ofn fod eich sgiliau siarad Siapanaeg yn wan, neu'n absennol!

A variety of short films for those aged 8 or older, which present some very different aspects of the world in which we live – challenging, mystical, celebratory, inquiring and fun. Most of these films are dialogue free, proving words aren't always necessary when telling exquisite stories. However, in one film subtitles are used to assist those of us whose Japanese language skills are minimal, or non-existent.

**Tocynnau/Tickets: £2**

## Taith set Rownd a Rownd

**Dyddiad/Date**
Mawrth/Tuesday, 21.02.17, 18:00 – 19:30

Taith o amgylch set y ddrama deledu gyson Rownd a Rownd ym Mhorthaethwy i gynnwys sesiwn holi ac ateb ar y diwedd yng nghwmni rhai o'r criw.

A guided tour around Rownd a Rownd soap opera followed by a question and answer session with members of the production crew.

**Tocynnau/Tickets: £2***
***rhaid archebu ymlaen llaw/tickets must be purchased in advance**



## Billy Lynn's Long Half Time Walk

DU/UK, Tseina/China, UDA/USA, 2016, Ang Lee

**Dyddiad/Date**
Mercher/Wednesday, 22.02.17, 14:00, 19:30

Daw Billy Lynn, 19 oed, adref am orymdaith fuddugoliaethus yn dilyn brwydr erchyll yn Irac. Trwy gyfres o ol-fflachiadau mae'r ffilm yn dangos beth a ddigwyddodd go iawn i'w sgwad o filwyr, gan amlygu'r gwahaniaeth rhwng realiti rhyfel a thybiaethau America.

19-year-old Billy Lynn is brought home for a victory tour after a harrowing Iraq battle. Through flashbacks the film shows what really happened to his squad - contrasting the realities of war with America's perceptions.

**Tocynnau/Tickets: £3.50 – £7**



## Sgwrs: Datblygiad "GALERI 2"

**Dyddiad/Date**
Mercher/Wednesday, 22.02.17, 16:00 – 17:00

Sgwrs am ddatblygiad cyffrous Galeri 2 – sinema pwrpasol 2 sgrin ar safle Galeri. Cyfle i glywed gan Gwyn Roberts (Prif Weithredwr Galeri), Mari Emlyn (Cyfarwyddwr Artistig) a Steffan Thomas (Cyfarwyddwr Marchnata) am y datblygiad arbennig fydd yn agor yn 2018. Bydd cyfle hefyd i ofyn cwestiynnau a chofrestru ar gyfer bod yn rhan o dîm rhaglennwyr ifanc Galeri.

Galeri's Chief Executive, Artistic Director and Marketing Director will share the latest developments regarding the extension of Galeri 2.

Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru

Film Audience Network

**Tocynnau/Tickets:** am ddim/free admission



## Aladdin (U)
UDA/USA, 1992, Ron Clements & John Musker

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday, 23.02.17, 11:00

Pan mae bachgen tlawd sy'n byw ar y stryd am ddenu serch tywysoges hardd, mae'n defnyddio pwerau hud i esgus ei fod yn dywysog er mwyn ei phriodi.

When a street urchin vies for the love of a beautiful princess, he uses a genie's magic power to make himself off as a prince in order to marry her.

£1

**Sgrin am Sgrin**

**Tocynnau/Tickets: £1**

# Bafta Kids @ PICS 2017



**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday, 23.02.17, 14:00 – 16:00

Katie Thistleton fydd yn arwain dathliad o'r ffilmiau, rhaglenni teledu a gemau a enwebwyd ar gyfer Gwobrau Plant BAFTA. Golwg hwyliog tu cefn i'r llenni ar ffilmiau, cwestiynau ac atebion o'r gynulleidfa, heriau a chystadleuaeth arlunio. Dyma gyfle i weld y talentau tu ôl i'r enwebiadau gan actorion, animeiddwyr, dylunwyr a chyfarwyddwyr. Wedi ei anelu at blant 7-12 oed, bydd cyfleoedd i'r gynulleidfa gymryd rhan, tynnu hunluniau (selfies) a chasglu llofnodion ar ddiwedd y sioe. Mae'r enwebiadau'n cynnwys Amazing World of Gumball, Horrible Histories, Sam and Mark's Big Friday Wind-Up, Star Wars a Wolfblood.

